OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 498

## Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygio) (Cymru) 2019

**Dirymiadau a darpariaeth drosiannol**

**25.**—(1) Mae'r Gorchmynion a ganlyn wedi eu dirymu—

(a) Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Phytophthora ramorum) (Prydain Fawr) 2004(**1**); a

(b) Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Phytophthora ramorum) (Prydain Fawr) (Diwygio) 2007(**2**).

(2) Mae unrhyw hysbysiad a ddyroddir neu drwydded, awdurdodiad neu gymeradwyaeth arall a roddir o dan Orchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Phytophthora ramorum) (Prydain Fawr) 2004 neu at ddibenion y Gorchymyn hwnnw ac sy'n effeithiol pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym yn parhau mewn grym fel pe baent wedi eu dyroddi neu wedi eu rhoi o dan Orchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) 2005 neu at ddibenion y Gorchymyn hwnnw.

(**1**) O.S. 2004/3213.
(**2**) O.S. 2007/3450.